19 Medi 2016

I Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun** nos **LUN, 26 MEDI 2016** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. **CYFLWYNIAD AR FEYSYDD CHWARAE, CAE DDÔL A MATERION YN YMWNEUD Â STRYDLUN**
   Derbyn cyflwyniad ar yr uchod gan Simon Billington, Rheolwr Gweithrediadau Priffyrdd a Strydlun (De Sir Ddinbych) ac ystyried y cynigion.

2. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

3. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Datgan buddiannau personol ac ariannol yn yr eitemau busnes a restrir.

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
   Derbyn a chadarnhau fod cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016 yn gywir.

7. **MATERION YN CODI**

8. **PWYLLGORAU PWERAU BRYS**
   Derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun, 15 Awst 2016 (copi glas).

9. PWYLLGOR AMWYNDERAU
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016 (copi melyn).

10. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016 (copi gwyrdd).

11. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2017
Derbyn gwybodaeth am Ginio Elusennol y Maer a chymeradwyo dyddiadau cyfarfodydd y flwyddyn nesaf (copi pinc).

12. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR PWERAU BRYS
Ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r eitemau i'w cynnwys ar yr agenda ac eitemau i'w hystyried gan y Cyngor llawn.

13. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CANOLFAN LLANFWROG
Derbyn rhagor o wybodaeth y gofynnwyd amdani yng nghyswllt y cais am gymorth ariannol gwerth £5,000 tuag at gostau gosod grisiau a lifft yn y Ganolfan.

14. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – PROSIECT CLYCHAU EGLWYS SANT PEDR
Derbyn rhagor o wybodaeth ysgrifenedig gan Mrs Jennifer Trigger, yn dilyn ei chyflwyni i'r Cyngor Tref ym mis Gorffennaf, yng nghyswllt cais am gymorth ariannol o £3,299.00 + TAW, sef cost ailosod mecanwaith y cloc.

15. DIGWYDDIAD ARFAETHEDIG RALI PRYDAIN FAWR YN RHUTHUN
Ystyried y cynnig a'r cais am gyfraniad ariannol o £1,275.00 tuag at gost y sgrîn fawr a chostau darlledu (copi melyn).

16. PROSIECT RHWYDWAITH iBEACON
Ystyried cymryd rhan yn y prosiect dan arweiniad Cadwyn Clwyd ar gost o £750.

17. ESTYNIAD I FYNWENT LLANRHYDD
Cytuno ar y geiriau ar yr arwydd i'w osod yn y fynwent yn dilyn cyfraniad Cyngor Tref Rhuthun tuag at brynu tir yr estyniad.

18. CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
Ystyried gwahoddiad i Gyfarfod Chwarterol y Gymdeithas i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor Tref y Rhyl ddydd Gwener, 21 Hydref 2016 am 10.30am, ynghyd â chinio am £16.00 y pen.

19. TŴR CLOC PEERS
Ystyried cais am ganiatâd i osod goleuadau a sain ar/o gwmpas Tŵr Cloc Peers a defnyddio'r socedi trydan dros gyfnod Nos Galan 2016 a Diwrnod Calan 2017 gan Jeff Brimble a David Smith. Mae hysbysiad digwyddiad dros dro wedi ei sicrhau eisoes gan Gyngor Sir Ddinbych.

20. PRISIAU MEYSYDD PARCIO YN RHUTHUN
Derbyn cais i leihau costau parcio ym meysydd parcio Rhuthun ac i Gyngor Tref Rhuthun ystyried rhoi cymorth ariannol er mwyn lleihau'r costau parcio.

21. CYMHWYSTER CiLCA
Ystyried cais gan y Clerc i gofrestru ar gyfer y Dystysgrif Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) a weinyddir gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i gynnwys pedwar diwrnod o hyfforddiant yn yr Wyddgrug yn 2017 am ffi o £250 + TAW a chofrestru'r cymhwyster ymhen 12 mis ar gost o £250.